



**Cofnodion o Gyfarfod Llawn Cyngor Tref Llandeilo a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor ,
Swyddfeydd y Cyngor, Heol Cilgant, Llandeilo am 7.30 p.m. ar Nos Fawrth 18^{ed} Ionawr 2005**

Presennol: Maer Mrs Ros Bellamy Dirprwy Faer Colin Jenkins
Cyng Mrs Fran Murphy Cyng Richard Wallace
Cyng Ieuan Gwyn Cyng Hugh Towns
Cyng Paul Faulkner Cyng Roy Davies
Clerc June Stait

Ymddiheuriadau: Cyng Sir Ieuan Jones Cyng David Jones
Cyng Charlotte Leadbeater Cyng Pam Steane Price

Roedd Rhingyll yr Heddlu Neil Jones yn bresennol i gynghori'r Cynghorwyr ar fonitro'r drafndiaeth a phroblemau parcio. Cafwyd adroddiad byr ganddo am dorcyfraith lleol : un bwrgeliaeth ers Mis Hydref a nifer fach o achlysuron llai dros y misoedd diwethaf. Diolchodd y Maer iddo am ei bresenoldeb.

6352/Ion/05 Canolfan Twristiaeth Llandeilo

Roedd Ms S Van Eeghen, Swyddog Twristiaeth Sir Gaerfyrddin yn bresennol i drafod y Ganolfan Gwybodaeth Ymwelwyr. Ysgrifennodd y Cyngor Sir at y Cyngor Tref yn gofyn iddynt nodi busnes yn y dref a fyddai'n cynrychioli Canolfan Gwybodaeth Ymwelwyr yn Llandeilo ac felly yn ei caniatáu i gau'r Ganolfan Gwybodaeth bresennol yn y maes parcio. Roedd y ganolfan yn costio £ 20,000 y flwyddyn i'w gynnal, arian a gredai'r Cyngor Sir a fyddai'n well i'w wario ar farchnata Sir Gaerfyrddin yn gyffredinol .

Anghytunodd y mwyafrif o'r cynghorwyr a oedd yn bresennol. Roedd y Maer a'r dirprwy Faer wedi ymweld â chanolfannau gwybodaeth Castell newydd Emlyn a Thalacharn , y ddau wedi 'u canola mewn busnesau ac roedd y ddau yn aflwyddiannus.

Yr eitem yma i'w drafod yn y pwyllgor llawn nesaf .

6353/Ion/05 Munudau Blaenorol.

- 1. Cyfarfod Llawn.** Darllenwyd munudau y cyfarfod llawn o'r cyngor a gynhaliwyd ar 21ain o Ragfyr ac fe'i harwyddwyd fel cofnod gwir a chywir. Cynigiwyd gan y Cyng Colin Jenkins ac eiliwyd gan y Maer.
- 2. Cyllid.** Arwyddwyd munudau o gyfarfod y pwyllgor cyllid a gynhaliwyd ar 5^{ed} Ionawr 2005 fel rhai gwir a chywir. Cynigiwyd gan Ieuan Gwyn, eiliwyd gan y Cyng Richard Wallace.
- 3. Cynllunio.** Arwyddwyd munudau cyfarfod y pwyllgor cynllunio a gynhaliwyd ar 5^{ed} Ionawr 2005 fel rhai gwir a chywir .Cynigiwyd gan y Cyng Colin Jenkins, eiliwyd gan y Cyng Richard Wallace.

6354/Ion/05 Penodi Swyddog Technegol

Yr eitem yma i'w drafod yn y cyfarfod llawn nesaf er mwyn i'r Cyng Hugh Towns gael amser i lunio drafft o'r disgrifiad swydd.

6355/Ion/05 Clerc

Cadarnhaodd y Maer fod y clercc presennol June Stait wedi cytuno i barhau yn y swydd am dri mis arall tan Mawrth 05.

6356/Ion/05 Cynllun Plannu Coed yn Bridge Street

Cafwyd caniatâd gan y perchennog tir olaf i blannu coed. Gan fod yr amser yn brin i dymor plannu coed eleni cynigiwyd gan y Cyng Hugh Towns y dylai'r amcan bris gan Coed Dulais, o £1485.67, yn cynnwys TAW, gael ei dderbyn, fe gytunodd y cynghorwyr yn unfrydol ac fe benderfynwyd gofyn i'r contractwyr i gychwyn ar y gwaith yn ddiymdroi. Yn gynwysedig yn yr amcan bris roedd cynnal a chadw am dair blynedd, ac ar ôl hynny y dylai perchennogion tir rhannu y gost o gynnal a chadw. Cafwyd amcan bris arall gan Robert Holmes am £15469.23 ond ni dderbyniwyd unrhyw amcan brisiau eraill.

6357/Ion 05 Cyfarfod Safle Llys Pencrug

Trefnwyd cyfarfod ar safle gyda Swyddog Cadwraeth Coed y Cyngor yn Llys Pencrug, ond fe'i canslwyd yn ddiweddarach. Cyfarfod arall i'w drefnu gyda'r datblygwr a'i ymgynghorwr tirlun.

6358/Ion/05 Trefnu Cyfarfodydd Cyngor

Trafodwyd Cyfarfodydd y Cyngor a rôl y dirprwy Faer. Cytunwyd fel a ganlyn :

- a) **Cyfarfod Cynllunio yn gyntaf i'w ddilyn gan Cyllid**
Cynigiwyd gan y Cyng Ieuan Gwyn, eiliwyd gan y Cyng Richard Wallace ac roedd pawb o blaid y dylai Cyfarfodydd Cynllunio yn y dyfodol gychwyn am 7.00 p.m. i'w dilyn gan Gyfarfod Cyllid am 7.30 p.m. neu 7.45 p.m. dibynnu ar rif yr eitemau cynllunio.
- b) **Pwerau dirprwyedig i'r cyfarfod cynllunio**- fe fedrir cytuno ar eitemau cynllunio normal gan y pwyllgor cynllunio heb aros am ganiatâd y pwyllgor llawn
- c) **Pwerau dirprwyedig i'r cyfarfod cyllid :**
Awdurdodwyd y pwyllgor Cyllid i wneud taliadau heb aros am ganiatâd y cyngor llawn i eitemau a oedd eisoes wedi'u cytuno yn y cyllid, tra ei bod o dan £1000 ac am eitemau dros £1000 os oeddynt eisoes wedi'u caniatáu gan y cyngor llawn. Cynigiwyd gan Hugh Towns, eiliwyd Ieuan Gwyn.
- d) **Diwrnod yn y mis i gynnal cyfarfodydd :**
Angen mwy o drafodaeth ar newid dyddiadau y cyfarfodydd i sicrhau bod y cyfarfodydd i gyd yn cwmpo ar yr un diwrnod pob mis yn hytrach na rhai ar ddydd Mawrth ac eraill ar Ddydd Mercher Yr eitem yma i'w drafod yn y cyfarfod llawn nesaf..

6359/Ion/05 Adroddiad y Maer

Derbyniwyd a nodwyd adroddiad llafar y Maer .

6360/Ion/05 Adroddiadau Eraill

a) Derbyniad Treftadaeth

Trefnwyd derbyniad treftadaeth a bwffe erbyn dydd Gwener 11^{eg} Chwefror o 1230 hyd at 1400 awr yn y Clwb Rygbi . Yno bydd lansio achlysuron treftadaeth a bydd cyfle i dderbyn syniadau newydd gan y mudiadau lleol a fyddai'n cael gwahoddiad i fod yn bresennol .

b) Pwll Tregib

Dyweddod y Cyng Sir Ieuan Jones fod y gwaith yn mynd yn ei flaen i derfynu'r cynllun am bwl 20m. Y clerch i ofyn am gopïau o'r cynlluniau.

c) Achlysur gefeillio tref

Aelodau o efeillio Le Conquet yn ymweld ar ddydd Iau 5^{ed} Awst .I'w croesawu fe fydd derbyniad bwffe byr gan Gyngor y dref.

d) Llwybrau cerdded y Dref

Cerddwyd llwybrau'r dref gan y cynghorwyr ar ddydd Calan gan adrodd yn ôl fod y llwybrau yn dirywio ac angen gofal , megis darn concrit ar dir lle'r oedd y gwartheg yn gwasgaru y cerrig man i ffwrdd yn barhaus. Gwahoddir Swyddog o'r Adran Hawliau Ffordd o'r Cyngor i gyfarfod yn y dyfodol i drafod pa ariannu oedd ar gael ,a beth oedd bwriadau y cyngor y flwyddyn yma .

Standing Order 6 was suspended to allow the meeting to continue.i ganiatáu parhad y cyfarfod .

6361/Ion/05 Parcïo yn y Dref

Derbyniwyd copi o lythyr a anfonwyd at y Cyngor Sir gan Dr Bill Brady o Garth Celyn Canolfan Deintyddol yn amlinellu ei gonsŷrn am broblemau parcïo a chynlluniau parcïo i breswylwyr – nodwyd. Ystyriwyd gan y cynghorwyr y byddai cyfarfod cyhoeddus yn y dyfodol o gymorth .

6362/Ion/05 Eitemau o ohebiaeth eraill:

- a) Dogfen Ymgynghorol y Cynulliad – “Cynnig indemniadau i aelodau a swyddogion o awdurdodau perthnasol “ Cymerwyd i'w ddarllen gan y Cyng. Ieuan Gwyn .
- b) Cymdeithas Clercod Lleol – derbyniwyd amodau gwasanaeth i glercod a nodwyd fel canllaw.
- c) Un Llais i Gymru - nodwyd y canlynol- diweddariad cyflogaeth ,diswyddiad statudol, dulliau disgyblaeth a chwynion , deddf rhyddid gwybodaeth, gwybodaeth cyffredinol hawliau mynediad .
- d) Cynllun Datblygu 10 mlynedd i Dai a Gofal Cymdeithasol
- e) Dyddiadau Cyngor Sir i'r seminarau Tref a Chymuned yw
23^{ain} Chwefror 2005 Gwesty'r Llwyn Iorwg , Caerfyrddin o 0945- 1625 awr.
- f) Cyfarfod o Bwyllgor Rhanbarthol De Cymru o 1000 hyd at 1300 awr ar Ddydd Gwener 11^{eg} Chwef yn y Ganolfan Gymunedol , Llansawel, Castell Nedd Port Talbot.
- g) Comisiwn Coedwigaeth Gwybodaeth am gymorthdaliadau a oedd ar gael- aethpwyd i'w darllen gan y Cyng Fran Murphy .
- h) One Voice Wales Llythyr gan y Prif Weithredwr i gyflwyno ei hun ac i gynghori y Cyngor ar gyfraniadau i'r Apêl Tsunami – Aeth y Maer a'r rhain i'w darllen
- i) Cae William Sports Ltd – llythyr yn diolch i'r Cyngor am eu cyfraniad caredig i sicrhau y wal ffiniol